**PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU**

**9 Rhagfyr 2020**

Yn bresennol: Cynghorydd R Owens (Cadeirydd)

Cynghorydd P Baker BEM, Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Cynghorydd P Harries, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd M Williams a’r Cynghorydd S Yelland

[Ymunodd y Cynghorydd A Wilcox â’r cyfarfod cyn delio â Datgeliadau o Ddiddordeb (Cofnod 2); Ymunodd Mrs J James â’r cyfarfod yn dilyn ystyried cais NP/20/0437/FUL (Cofnod 6a)]

[Parc Llanion, Doc Penfro 10.00am – 12.05pm]

**1. Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb wrth Dr RM Plummer. Roedd Mrs J James wedi cynghori ei bod yn cael trafferth cysylltu â’r cyfarfod.

**2. Datgeliadau o Ddiddordeb**

Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol fuddiant yn y cais (ceisiadau) a/neu'r mater(ion) y cyfeirir atyn nhw isod:

| **Cais a Chyfeirnod** | **Aelod(au)/Swyddog(ion)** | **Gweithred** |
|---|---|---|
| *Cofnod 6(a) isod* NP/20/0437/FUL – Apple Tree Gallery, The Ridgeway, Saundersfoot | Cynghorydd P Baker | Aros yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y drafodaeth. |
| Cofnod 6(b) isod NP/19/0522/FUL – Buttyland Caravan & Camping Park, Maenorbŷr | Cynghorydd M Evans | Gadael y cyfarfod pan oedd y cais yn cael ei drafod. |
| *Cofnod 6(c)isod* NP/20/0371/FUL – Newport Links Golf Club, Heol Cwrs Golff, Trefdraeth | Cynghorydd P Harries | Aros yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y drafodaeth. |

Cynghorodd y Cynghorydd P Kidney bod Mr Ray Hughes yn bresennol yn ei dŷ er mwyn gwrando ar y cyfarfod ond na fyddai ganddo unrhyw ddylanwad yn ystod y cyfarfod.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2020 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2020 yn gywir ac yn ddilys.

**NODWYD.**

**4. Hawl i siarad yn y Pwyllgor**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Atgoffwyd y siaradwyr gan y Cadeirydd pa mor bwysig oedd hi iddyn nhw ddefnyddio eu hamser i godi materion cynllunio perthnasol a fyddai o gymorth i'r Aelodau benderfynu'r cais o dan sylw. Cynghorodd y siaradwyr pe bae un ohonyn nhw, er ei rybuddio, yn parhau i godi materion nad oedden nhw'n berthnasol, byddai'r gweinyddwr yn cael cyfarwyddyd i ddiffodd meicroffon y siaradwr.

Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud. *(mae'r partïon oedd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais (ceisiadau) penodol, ac yn y drefn y buon nhw'n cyfarch y Pwyllgor):*

| **Rhif cyfeirnod** | **Cynnig** | **Siaradwr** |
|---|---|---|
| NP/19/0522/FUL<br>*Cofnod 6(b) cyfeir* | Caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer 14 o unedau tai fforddiadwy. Caniatâd cynllunio llawn ar gyfer newid defnydd tir o 85 o bebyll a charafanau teithiol i 85 o garafanau sefydlog a gwaith tirweddu cysylltiedig, ffyrdd dosbarthu a gorsaf newydd i bwmpio - Buttyland Caravan & Camping | Geraint John - Asiant |

| | | |
|---|---|---|
| | Park, Maenorbŷr | |
| NP/20/0381/FUL *Cofnod 6(d) cyfeir* | Codi mast meteorolegol i fesur y gwynt a data tywydd, uchafswm uchder o 120m o lefel y llawr, am gyfnod dros dro o 3 blynedd- Tir yn South Studdock Farm, Angle, Penfro | David Jones – ar ran yr Ymgeisydd |

**5. Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau**

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, gyda phwyslais penodol ar amcanion a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn mynd yn ei flaen i amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu, dyletswydd yr Awdurdod i gyflawni datblygiadau cynaliadwy, ystyriaethau ecolegol oedd yn cynnwys swyddogaeth Deddf Amgylchedd Cymru 2016, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y Pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl.

**NODWYD**

6. **Adroddiad Ceisiadau Cynllunio**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

[Gyda chydsyniad y cyfarfod rhoddodd y Cadeirydd ystyriaeth i'r cais canlynol yn groes i'r drefn ar yr agenda.]

(a) CYFEIRNOD: NP/20/0437/FUL
YMGEISYDD: Mr a Mrs D a Y Mannings
CYNNIG: Cais cynllunio ôl-weithredol ar gyfer drws yn y wal orllewinol a ffenestri yn y to
LLEOLIAD: Apple Tree Gallery, The Ridgeway, Saundersfoot

Atgoffwyd yr Aelodau bod cais blaenorol ar gyfer newidiadau, estyniadau a newid defnydd o'r oriel ar y safle wedi'i wrthod gan y Pwyllgor ym mis Medi 2020. Roedd y cais presennol yn gofyn caniatâd am lai o newidiadau ac nid am newid defnydd na chwaith estyniad. Gofynnid am

ganiatâd ôl-weithredol ar gyfer drws yn y trychiad gorllewinol ac roedd datblygiad newydd yn cael ei gynnig o ran ffenestr ychwanegol a dau olau to yn y trychiad gorllewinol.

Adroddwyd yn y cyfarfod bod swyddogion wedi derbyn cais wrth Aelod i ohirio'r cais hwn i alluogi ystyriaeth gyflawn o wybodaeth a gafodd ei gylchynu deuddydd ynghynt, ac i alluogi hyn i fod ar gael i breswylwyr lleol a'r Cyngor Cymuned. Ychwanegodd y Cadeirydd gan fod yna ddau berson am siarad am y cais hwn y byddai'n derbyn y cynnig i ohirio'r cais yn gyntaf er mwyn rhoi cyfle i'r siaradwyr annerch cyfarfod diweddarach.

**PENDERFYNIAD: Gohirio'r cais i ganiatáu cylchynu ac ystyriaeth gyflawn o wybodaeth ychwanegol oedd wedi'i ddarparu gan yr ymgeisydd.**

| | | |
|---|---|---|
| (b) | CYFEIRNOD: | NP/19/0522/FUL |
| | YMGEISYDD: | Mr D Brown ac Ateb |
| | CYNNIG: | Caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer 14 o unedau tai fforddiadwy. Caniatâd cynllunio llawn ar gyfer newid defnydd tir o 85 o bebyll a charafanau teithiol i 85 o garafanau sefydlog a gwaith tirweddu cysylltiedig, ffyrdd dosbarthu a gorsaf newydd i bwmpio |
| | LLEOLIAD: | Buttyland Caravan & Camping Park, Maenorbŷr |

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor wedi penderfynu gwrthod y cais hwn yn groes i argymhelliad y swyddog. O ganlyniad roedd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc wedi cyflwyno trefniadaeth 'oedi' yr Awdurdod a oedd yn golygu ei bod yn ofynnol i'r cais gael ei ystyried o'r newydd yn y cyfarfod priodol nesaf. Atgoffwyd yr Aelodau gan y Cyfreithiwr o'r drefn i'w dilyn sef bod rhaid cofnodi'r bleidlais a phe bai yna gynnig pellach oedd yn groes i argymhelliad y swyddog, byddai rhaid darparu rhesymau cynllunio dilys dros wrthod cyn bwrw pleidlais.

Roedd y cais yn 'gais deuol' am ei fod yn gofyn am ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer un rhan a chaniatâd cynllunio llawn ar gyfer rhan arall ar yr un safle, fel roedd wedi'i nodi yn y cynnig uchod. Roedd y safle yn safle carafanau oedd wedi'i hen sefydlu ar y ffordd i gyfeiriad Gorsaf Maenorbŷr. Roedd ardal y safle carafanau yn croesi ffin y Canol Gwledig fel roedd wedi'i ddiffinio gan Bolisi 6 o Gynllun Datblygu Lleol 2 , gyda rhan ddwyreiniol y safle (safle maes gwersylla a'r carafanau) yng nghanol cefn gwlad agored.

Roedd swyddogion yn ystyried y datblygiad yn dderbyniol o ran polisi lleol, diogelwch priffordd ac effaith ar y dirwedd, a'r argymhelliad drachefn oedd cymeradwyo yn amodol ar gyflwyno cytundeb cyfreithiol S106 a'r

amodau oedd wedi'u gosod allan yn yr adroddiad. Er yr hyn a nodwyd uchod, pe bai'r Aelodau yn penderfynu gwrthod y cais ar sail y rhesymau a nodwyd yn y cyfarfod blaenorol, roedd geiriad wedi'i awgrymu ar gyfer rhesymau dros wrthod wedi'i ddarparu ar gyfer yr Aelodau i'w hystyried.

Mewn ateb i gwestiwn gan Aelod ynghylch y posibilrwydd o drafod amrywio amseroedd cyrraedd a gadael i'r rheiny fyddai'n aros yn y carafanau er mwyn lleddfu tagfeydd ar adegau prysur, atebodd y swyddog mai barn swyddogion a'r Awdurdod Priffyrdd oedd bod y cais yn dderbyniol yn ei ffurf bresennol, ac nad oedd trafodaethau o'r fath wedi'u cynnal. Mewn ymateb i ail gwestiwn, cynghorwyd yr Aelodau mae'r cynnig oedd y byddai'r 15 pabell a'r 70 o unedau teithio yn newid i fod yn 85 o unedau sefydlog a fyddai'n cael eu rheoli o ran preswylio gwyliau, ac felly gallai'r carafanau sefydlog fod yn breswylfeydd y perchnogion neu yn cael eu gosod ar gyfer amcanion gwyliau. Yn olaf, cadarnhaodd y swyddog y byddai cerbydau yn parcio gerllaw'r carafanau gyda maes parcio gorlif ychwanegol hefyd ar gael, fel oedd yr achos ar hyn o bryd ond byddai'r cynllun tirweddu cadarn yn darparu mwy o guddio nag oedd ar gael ar hyn o bryd.

Anerchwyd y Pwyllgor wedyn gan yr Asiant, Geraint John, a oedd wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â Gerald Blain Associates. Cynghorodd ei fod wedi anfon llythyr manwl at yr Aelodau cyn y cyfarfod ond roedd am dynnu sylw at nifer o bwyntiau. Nododd bod y swyddogion wedi asesu'r cais ac roedd yr adroddiad yn dweud ei fod yn dderbyniol o ran polisi cynllunio ac ystyriaethau perthnasol eraill. Doedd dim gwrthwynebiadau wedi dod i law wrth ymgynghorwyr statudol a'r argymhelliad oedd cymeradwyo. Ond roedd yn cydnabod bod gan yr Aelodau rai pryderon o hyd ac roedd am geisio delio â nhw. O ran diogelwch priffordd roedd yr Awdurdod Priffordd wedi dod i'r casgliad bod datrysiad diogel a derbyniol wedi'i gynnig a fyddai'n arwain at ostyngiad mewn niferoedd ar y safle ar y cyfan. O ran y dirwedd a'r mwynder gweledol roedd yna asesiad tirwedd manwl wedi'i gyflwyno i hyrwyddo'r safle a fyddai'n gwella gosodiad a golwg yr unedau. Roedd amodau wedi'u hawgrymu i reoli hyn ac o'r herwydd byddai'r ardal yn union oddi amgylch ac yn ehangach, yn ogystal â nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, yn cael eu diogelu. Roedd yr hyrwyddo cyffredinol hwn wedi'i groesawu gan Gyfoeth Naturiol Cymru gan fod eu pryderon sylfaenol wedi'u bodloni. O ran yr awgrym o or-ddatblygu holodd Mr John sut y byddai hyn yn amlygu ei hun am fod yna ddisgwyliad y byddai gostyngiad mewn trafnidiaeth, dim cynnydd mewn niferoedd a chapasiti yn yr ardal i alluogi safleoedd i newid y mathau o unedau carafanau/gwersylla oedden nhw'n eu cynnig. Yn ychwanegol roedd yna lefydd dros ben yn yr ysgol ac angen am dai fforddiadwy, a fyddai'n cael eu sicrhau trwy gytundeb cyfreithiol. Dywedodd hefyd na fyddai yna unrhyw effaith ar breifatrwydd na mwynder ond y byddai'r datblygiad yn hyrwyddo twristiaeth, yn darparu tai fforddiadwy, gwell

draenio, a gwelliant yng ngolwg a rheolaeth o’r safle. Yn olaf mewn ateb i gwestiynau cynharach yr Aelodau rhagwelodd y byddai’r mwyafrif o’r unedau yn eiddo i’r preswylwyr er bod hyn yn fater i’w gadarnhau, ac am y byddai yn fater o gerbydau’n unig yn cyrraedd yn hytrach na charafanau ar grwydr, byddai eu heffaith yn cyrraedd ac yn gadael yn  dipyn llai. Roedd hefyd yn credu y byddai’r carafanau sefydlog yn ôl pob tebyg yn cuddio’r cerbydau fyddai wedi’u parcio yn eu hymyl yn well nag y byddai carafanau crwydrol neu bebyll yn ei wneud.

Wrth ddiolch i’r swyddogion am gryfhau’r amod i’w gwneud yn ofynnol i gadw lliw’r unedau am byth roedd yr Aelodau yn dal yn bryderus a fyddai’r wybodaeth yma, ynghyd â’r hyn oedd yn gysylltiedig â gwaredu hawliau datblygu oedd wedi’u caniatáu, yn cael ei drosglwyddo i berchnogion y carafanau. Atebodd y swyddogion na fedrai’r Awdurdod reoli pa wybodaeth fyddai’n cael ei ddarparu gan y tirfeddiannwr ond roedden nhw’n gobeithio y byddai gwybodaeth berthnasol o’r fath yn cael ei drosglwyddo. Er hynny, byddai’n bosib cymryd camau gorfodaeth yn erbyn tirfeddiannwr neu unrhyw barti fyddai â diddordeb yn y mater.

Adroddodd y Cynghorydd P Kidney gerbron y Pwyllgor wedyn ei fod wedi cyfarfod â Network Rail dair wythnos ynghynt, ac roedden nhw wedi cynghori ei bod yn ddymuniad ganddyn nhw i gau’r man croesi Beavers Hill gerllaw, nad oedd neb yn ei warchod, yn ystod y 3-4 blynedd nesaf, gan olygu y byddai’r rhan fwyaf o drafnidiaeth rhwng Ridgeway a’r A4139 yn ardal Maenorbŷr/Jameston yn teithio heibio’r safle hwn. Nododd hefyd pa mor wantan oedd hanes yr ymgeisydd o ran cydymffurfio ag amodau cynllunio. Nododd hefyd beth fyddai effaith gronnus datblygiadau yn yr ardal ar breswylwyr a chynigiodd y dylid gwrthod y cais. Cafodd hyn ei eilio.

Cyn pleidleisio gofynnodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc i’r Aelodau gadarnhau fod y rhesymau dros wrthod yr un â’r rhai oedd wedi’u gosod allan yn yr adroddiad, ac fe wnaethon nhw hynny. Fe gynghorodd hi’r Aelodau hefyd pe bai yna apêl fe fyddai rhaid iddyn nhw amddiffyn y penderfyniad gan nodi bod ymgynghorwyr wedi cael eu defnyddio i gynorthwyo’r Aelodau yn y gorffennol.

Cynhaliwyd pleidlais wedi’i chofrestru wedyn ar y cynnig i wrthod y cais, gyda’r canlyniad canlynol:
Dros – Cyng P Baker, Dr R Heath Davies, Cyng M James, Cyng P Kidney, Cyng P Morgan, Cyng R Owens, Cyng A Wilcox, Cyng S Yelland;
Yn erbyn – Cyng D Clements, Cyng K Doolin, Cyng P Harries, Mrs S Hoss, Mrs J James, Mr G Jones, Cyng M Williams
Ymatal – Dr M Havard
Absennol – Cyng M Evans, Dr R Plummer

**PENDERFYNIAD: Gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:**

1. **Oherwydd maint a natur y datblygiad arfaethedig byddai'r datblygiad yn arwain at gynnydd sylweddol mewn symudiadau cerbydau i mewn ac allan o'r safle, a fyddai'n effeithio'n andwyol ar symudiad dilyffethair trafnidiaeth ar y rhwydwaith briffyrdd gerllaw, ac yn effeithio'n andwyol ar ddiogelwch priffordd a cherddwyr, sydd yn groes i Gynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordirol Penfro (Mabwysiadwyd 2020) Polisi 60 ( Effeithiau Trafnidiaeth)**

2. **Byddai'r cynnig i ddarparu 85 o garafanau sefydlog gydol y flwyddyn ar safle wedi'i leoli yng nghefn gwlad yn arwain at effaith andwyol ar y dirwedd oddi amgylch ac yn ehangach, ac ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, sydd yn groes i Gynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordirol Penfro (Mabwysiadwyd 2020) Polisïau 8 (Nodweddion Arbennig), 14 (Cadwraeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), 38 (Economi Ymwelwyr), 40 (Datblygiad Hunanarlwyo) a 41 (Datblygu Carafanau, Gwersylla a Chabanau).**

3. **Byddai'r cynnig yn cyflwyno datblygiad a fyddai o ran ei faint a'i leoliad yn arwain at effaith sylweddol ar breifatrwydd a mwynder eiddo cymdogion a byddai'n groes i Gynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordirol Penfro (Mabwysiadwyd 2020) Polisïau 14 (Cadwraeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) a 30 (Mwynder).**

[Doedd Mrs J James ddim yn bresennol yn ystod ystyriaeth o'r cais canlynol]

| | | |
|---|---|---|
| (c) | CYFEIRNOD: | NP/20/0371/FUL |
| | YMGEISYDD: | Mr C Noot, Newport (Pembs) Golf Club Ltd |
| | CYNNIG: | Newid defnydd o lety gwag Rheolwr i uned wyliau hunangynhwysol |
| | LLEOLIAD: | Newport Links Golf Club, Heol Cwrs Golff, Trefdraeth |

Adroddwyd bod yr eiddo hwn wedi'i leoli ar ymyl cwrs golff sydd wedi'i hen sefydlu a bod ganddo gyfyngiad preswylio i'w ddefnyddio fel llety rheolwr. Oherwydd newid yn amgylchiadau'r preswylydd a'r busnes cwrs golff roedd y cais yn gofyn am gyfnewid y cyfyngiad preswylio i un fyddai'n caniatáu defnyddio'r eiddo i'w osod ar gyfer gwyliau.

Er bod Cynllun Datblygu Lleol 2 yn rhoi blaenoriaeth i dai marchnad agored cyn tai gyda chyfyngiad gosod ar gyfer gwyliau, am y byddai'n ofynnol gyda'r math cyntaf i gymudo swm o arian i gynorthwyo gyda darparu tai fforddiadwy oddi ar y safle, ac yn yr achos hwn doedd yna ddim llecyn mwynder preifat na mynediad ar wahân ac roedd wedi'i leoli oddi fewn i gymhlyg ehangach. Byddai defnydd o'r eiddo fel eiddo

fforddiadwy ynddo'i hun yn creu uned ar ei phen ei hun oddi fewn i osodiad clwb golff ac felly roedd cyfiawnhad digonol i gefnogi'r cais gan osod amodau.

Yn y cyfarfod cynghorodd y swyddog y byddai hi'n dymuno ychwanegu un amod arall i gyfyngu triniaethau'r ffiniau a'r estyniadau i'r annedd ei hun. Doedd dim newidiadau strwythurol yn rhan o'r cais presennol.

Roedd y cais, yn cynnwys yr amodau ychwanegol yn cael eu cefnogi gan yr Aelodau am y byddai'n cynorthwyo'r dwristiaeth sy'n cael ei gynnig yn Nhrefdraeth, er eu bod yn gobeithio pe bai yna angen llety rheolwr yn y dyfodol y byddid yn bosib darparu hynny trwy brynu ac addasu eiddo presennol sydd ar y safle yn hytrach nag adeiladu o'r newydd. Cafodd yr argymhelliad i gymeradwyo ei gynnig a'i eilio.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar gadw amodau'n ymwneud ag amseru'r datblygiad, yn unol â chynlluniau, preswylio fel llety gwyliau yn unig a gwaredu hawliau datblygu a ganiatawyd i'r tŷ a'r ardd.**

[Cyflwynodd y Cynghorydd M Williams ei ymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ynghylch y cais canlynol.]

(d) CYFEIRNOD: NP/20/0381/FUL
YMGEISYDD: Mr B Huskinson, BlueGem Wind
CYNNIG: Codi mast meteorolegol i fesur y gwynt a data tywydd, uchafswm uchder o 120m o lefel y llawr, am gyfnod dros dro o 3 blynedd
LLEOLIAD: Tir yn South Studdock Farm, Angle

Adroddwyd bod y cynnig hwn yn cefnogi prosiect ehangach yn ymwneud â datblygu ynni adnewyddol morol. Roedd y datblygwr, BlueGem Wind, am gasglu data gwynt a thywydd er mwyn asesu capasiti'r Môr Celtaidd i gyflenwi prosiectau ynni gwynt oddi ar yr arfordir. Byddai'r data yn rhoi gwybodaeth ynghylch cyfleoedd a dichonolrwydd prosiectau gwynt oddi ar yr arfordir yn y dyfodol. Byddai'r rhain yn ddatblygiadau oddi ar yr arfordir y byddai angen trwyddedau morol ar eu cyfer y tu hwnt i reolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ond gyda'r potensial i effeithio ar ei nodweddion arbennig. Byddid yn ymgynghori ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol ynghylch unrhyw ddatblygiadau oddi ar yr arfordir yn y dyfodol.

Wrth glustnodi safle addas roedd yr ymgeisydd wedi ystyried opsiynau eraill ar gyfer mesur ac roedd wedi amlinellu'r rhesymau dros wrthod y dewisiadau eraill a ystyriwyd. Roedd tipyn o'r ardal chwilio a glustnodwyd yn rhan o ddynodiadau eraill megis Ardal Diogelwch Arbennig, Safle o

Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu Ardal Gadwraeth Arbennig yn ogystal â chyfyngiadau defnydd tir a gweithgareddau.

Roedd angen y mast i ddarparu o leiaf un flwyddyn lawn o ddata mesuriadau gwynt. Er mwyn caniatáu hyblygrwydd a threfniadau wrthgefn priodol roedd y cais yn gofyn am ganiatâd i'r mast fod yn ei le am gyfnod hyd at dair blynedd ac roedd yr asiant wedi nodi mai'r lleiafswm amser fyddai 15 mis. Ar derfyn y cyfnod caniatâd hwn byddai'r mast yn cael ei ddadgomisiynu a'i waredu a'r safle'n cael ei ddychwelyd i'w ddefnydd a'i gyflwr blaenorol.

Roedd adolygiad o'r Asesiad Gweledol a Thirweddol (LVA) a baratowyd ar gyfer yr Ymgeisydd wedi'i gomisiynu gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol a chopi wedi'i ddosbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Roedd y ddogfen hon wedi awgrymu mesuriadau hyrwyddo tirwedd bellach ac roedd yr ymgeisydd wedi cytuno i hyn. Felly roedd amod ychwanegol wedi'i hawgrymu i sicrhau hyrwyddiad tirwedd pellach a fyddai hefyd yn bodloni hyrwyddo bioamrywiaeth.

Ni fyddai angen llecyn arbennig ar y datblygiad ac roedd yna fynediad i'r safle eisoes. Roedd yr ymgeisydd wedi cynghori y byddai golau isgoch yn ddigonol ar gyfer amcanion mordwyo ac na fyddai golau amlwg yn angenrheidiol.

Ar y cyfan daethpwyd i'r casgliad, er bod effeithiau andwyol o ganlyniad i osod y mast, roedd yn bosib lliniaru'r rhain pe bai'r mast ddim ond yno am gyfnod byr. Felly, yn amodol ar osod amod addas yn sicrhau mai dros dro am 15 mis neu tan na fyddai ei angen mwyach, ac y byddai'r safle yn cael ei adfer i'w gyflwr blaenorol, yr argymhelliad oedd cymeradwyo'r cais.

Nodwyd nad oedd Cyngor Cymuned Angle wedi cynnig sylw ynghylch y cais ac fe gynghorodd y swyddog bod hwn oherwydd mai dros dro oedd y datblygiad. Roedden nhw hefyd wedi dweud nad oedden nhw am siarad yn y cyfarfod.

Anerchwyd y Pwyllgor wedyn gan David Jones ar ran yr ymgeisydd. Esboniodd bod y prosiect yn fenter ar y cyd gyda'r bwriad o greu ynni carbon isel yn y Môr Celtaidd. Roedd arnofio gwynt yn dechnoleg cymharol newydd a oedd yn ymwneud â gosod twrbein gwynt ar blatfform yn arnofio wedi'i leoli oddi ar yr arfordir lle'r oedd cyflymder gwynt yn uwch ac yn fwy cyson. Roedd eu heffaith hefyd yn dipyn llai yn weledol ac ar ddefnyddwyr môr. Dywedodd bod y Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi dweud bod technoleg o'r fath yn allweddol i gyflawni targed net sero'r DU ac roedd y datblygiad yn unol â Chynllun Morol Cymru. Credai bod Sir Benfro yn datblygu yn ganolfan rhagoriaeth o ran

creu ynni adnewyddadwy morol. Oherwydd ei natur dros dro a'r angen i ymateb i'r argyfwng hinsawdd anogodd yr Aelodau i gefnogi'r cais.

Holodd yr Aelodau Mr Jones am yr angen am fast ar y traeth yn hytrach nag oddi ar y traeth ac esboniodd y byddai yna fonitro oddi ar yr arfordir trwy LIDAR (Adnabod Golau a Phellter) yn arnofio ond roedd angen mast ar y traeth ar gyfer ei ddilysu.

Wrth ddiolch i'r swyddogion am adroddiad manwl a chyflwyniad buddiol credai'r Aelodau bod hwn yn brosiect diddorol, ac er nad oedden nhw am weld yr un dim yn tynnu oddi ar yr hyn a oedd yn dirlun eiconig, ystyrid bod pwysigrwydd ynni adnewyddadwy a natur dros dro y datblygiad yn gorbwyso'r amhariad bychan i'r dirwedd. Cafodd yr argymhelliad i gymeradwyo ei gynnig a'i eilio.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais gydag amodau'n ymwneud ag amseriad y cais, yn unol â chynlluniau, gwaredu'r mast ddim yn hwyrach na 15 mis wedi'i godi, cyflwyno Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu, hyrwyddiad tirweddol/ bioamrywiaeth a dim golau sbectrwm gweledol i'w osod yn glwm wrth y mast.**

**7. Apeliadau**

Adroddodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc ar 1 apêl (yn erbyn caniatâd cynllunio a roddwyd gan yr Awdurdod) a oedd ar hyn o bryd wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru, ac fe gynghorodd bod y gwaith papur dechreuol wedi'i anfon at yr Arolygiaeth Cynllunio.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod cynghorodd y Cyfarwyddwr bod y Datganiad Amgylcheddol mewn cysylltiad ag Apêl Trewern wedi'i gyflwyno ac y byddai ymgynghoriad gyda'r gymuned yn cychwyn yn fuan; byddai copi o'r ddogfen yn cael ei gosod ar wefan yr Awdurdod.

**NODWYD.**

**8. Cyfarchion y Tymor**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r swyddogion am eu cyfraniadau gydol y flwyddyn gynt a dymunodd Nadolig Llawen i bawb.

**NODWYD.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2021 heb eu diwygio. |